**BWRDD(22-01)Cofnodion**
**Preifat a Chyfrinachol**

**Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 454**
**20 Ionawr 2022 - Cyfarfod dros Zoom**

**Presennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Guto Bebb | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Adele Gritten | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Chris Jones | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Denise Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Aelodau Gweithredol:** | Siân Doyle | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Geraint Evans | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Staff S4C oedd yn bresennol:** | Geraint Pugh | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Meleri Wyn Flint | (Cydlynydd Gwasanaeth Mynediad) eitem 8 |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) – eitemau 5-6 |
| | Bethan C Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

| | **COFNODION** | |
|---|---|---|
| | **MATERION SEFYDLOG:** | |
| 1. | **Croeso a Datganiadau Diddordeb**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb penodol ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan hynny. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau. Nodwyd serch hynny bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd, ac fe atgoffodd y Cadeirydd bawb o'r angen i ddiweddaru eu datganiadau buddiant. | |
| 2. | **Adroddiad y Cadeirydd**<br>Croesawyd Siân Doyle i'w chyfarfod cyntaf o'r Bwrdd fel aelod gweithredol, yn dilyn ei phenodiad fel Prif weithredwr S4C.<br><br>Roedd yr Ysgrifennydd wedi cysylltu â'r aelodau yn eu gwahodd i gwblhau holiaduron ar-lein i werthuso effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau dros y flwyddyn ddiwethaf. Atgoffwyd yr aelodau i gwblhau'r holiaduron. | |
| 3 | **Adroddiad y Prif Weithredwr**<br>Cyflwynodd SD ei hadroddiad gan gyfeirio at y materion isod.<br>Roedd wedi cael derbyniad da gan y staff i gyd, ac adnabod nifer o flaenoriaethau i'w datrys. Roedd SD yn teimlo fod ein gweithdrefnau presennol yn hynod llinol a bod angen datblygu llawer iawn mwy ar yr ochr ddigidol. Roedd cynlluniau eisoes ar waith i fynd i'r afael â hyn.<br><br>Nododd SD hefyd fod gan S4C weithlu ifanc, a bod cyfle i fod ychydig yn fwy mentrus ac efallai gymryd mwy o risgiau. | |
| | **Setliad**<br>Gan ein bod bellach wedi derbyn cadarnhad o Setliad Ffi'r Drwydded gan yr Ysgrifennydd Gwladol, byddai nawr yn bosib bwrw mlaen i fireinio a chymeradwyo'r Strategaeth newydd. I'r perwyl hwn, roedd SD wedi trefnu deuddydd o gyfarfodydd i'r Tim Rheoli ddiwedd y mis i drafod yn union beth mae pawb am ei wneud dros y 90 diwrnod nesaf, a rhoi perchnogaeth i bobl dros wahanol agweddau er mwyn sicrhau fod rhywun yn berchen ar bob un elfen o'r Strategaeth. Bydd modd wedyn rhoi mesuryddion yn erbyn pob elfen, gan geisio eglurder ar beth yn union sydd ei angen arnom, a hefyd beth nad yw'n flaenoriaeth strategol i ni mwyach. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cyfarfodydd**<br><br>Adroddwyd fod SD wedi cyfarfod gyda nifer o wleidyddion a chynrychiolwyr o wahanol gyrff. Roedd wedi cael cyfarfod hynod bositif gyda Rhuanedd Richards, BBC Cymru, ac roedd hithau wedi gwahodd Tim Davie i gyfarfod gyda ni i drafod ein cynlluniau.<br><br>Byddai'r Cadeirydd a SD yn cwrdd gyda Robert Specterman Green o'r DCMS yn hwyrach, wedi'r cyfarfod hwn o'r Bwrdd.<br><br>Nodwyd fod SD hefyd wedi cyfarfod efo cynrychiolwyr TAC, ac y byddai angen cytuno ar strwythur cyfarfodydd rheolaidd i'r dyfodol i sicrhau cydweithio effeithiol rhwng S4C a TAC. | |
| | **Prif Swyddog Cynnwys**<br>Adroddwyd fod gwaith o recriwtio Prif Swyddog Cynnwys yn mynd yn ei flaen, gyda sawl cais wedi dod i law. Gobeithir cynnal y cyfweliadau cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd. | |
| | **Y Mesur Cyfryngau**<br><br>Roedd trafodaethau'n parhau o ran datblygiad Mesur Cyfryngau posib. Byddai angen i ni sicrhau fod y Mesur yn crybwyll amlygrwydd rhanbarthol, a sicrhau fod y meini prawf yn cael eu newid fel ein bod ar restr Cymru o ddarlledwyr *free to air*. | |
| | **Cynnwys**<br><br>Cyflwynodd GE grynodeb o ran perfformiad cynnwys S4C dros y Nadolig. Nodwyd mai Nadolig y chwaraewyr ar-alw oedd hwn, a bod angen i ni fod yn flaengar yn y dyfodol.<br><br>Nid cynnwys Nadoligaidd o reidrwydd oedd yn apelio i'r gynulleidfa, gan i ni ddysgu mai un o'r uchafbwyntiau oedd rhaglen Huw Edwards yn 60, nad oedd â naws Nadoligaidd iddi. Roedd hefyd gwersi i'w dysgu o ran ein dramâu, a'r angen ail-edrych ar ein cynnig o ran eu cyhoeddi'n llinol ond eu bod ar gael ar Clic fel bocsets.<br><br>Holwyd ymhellach am ddull mesur BARB, ac yn benodol beth ydy ei bwrpas os ydy llinol yn edwino. Anogwyd y swyddogion i feddwl yn radical am hyn. Roedd SD hefyd yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o'r gynulleidfa sy'n gwylio cynnwys S4C ar Clic a'r iPlayer.<br><br>Pwysleisiodd DL yr angen i ddeall ein cynulleidfa'n fwy cyffredinol a phwysigrwydd system pwrpasol fyddai'n gallu tynnu'r gwahanol ddata ynghyd, er mwyn ein caniatáu i werthuso a phenderfynu pa gynnwys fyddai'n briodol i'w gomisiynu.<br><br>**Penderfyniad: Byddai AdG yn rhannu manylion cwmnïoedd allanol addas i'w hystyried i weithio gydag S4C ar sut fyddai orau i gasglu, gwerthuso, a gwneud y mwyaf o'n data.** | **AdG** |
| 4. | **Arolwg Staff**<br>Roedd yr aelodau yn edrych ymlaen at gael dadansoddiad o'r arolwg, gan ei bod hi'n pwysig i ddeall y tueddiadau. Byddai CW yn rhoi adroddiad i'r Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf.<br><br>Awgrymodd SD y byddai'n fuddiol trefnu cwmni allanol i gynnal yr holiadur y tro nesaf, gan y byddai hyn yn cynnig cyfle i feincnodi'r canlyniadau yn erbyn sefydliadau eraill oddi fewn a thu hwnt i'r sector.<br><br>**Penderfyniad: CW i gyflwyno ddadansoddiad o'r arolwg staff i'r Bwrdd ym mis Chwefror.**<br><br>[ymunodd ShW a'r cyfarfod] | **CW** |

| | | |
|---|---|---|
| 5. | **Adroddiadau Ariannol**<br><br>**Adroddiad Ariannol Chwarter 3, 2021-22**<br>Cyflwynodd ShW adroddiad ariannol ar gyfer chwarter 3, 2021-22. | |
| 6. | **Cymeradwyo Cyllideb 2022-23 (a'r cynllun ariannol pum mlynedd**)<br><br>Cyflwynodd ShW yr adroddiad, oedd wedi ei chylchredeg cyn i S4C dderbyn cadarnhad o Setliad Ffi'r Drwydded.<br><br>Nododd ShW ein bod wedi gorfod delio efo chwyddiant sylweddol ers y toriadau yn 2010, ac wedi darganfod ffyrdd newydd o'i reoli gyda'r sector. Rydym yn wynebu sialensau, ynghyd a'r BBC, ac o bosib bydd angen ystyried gweithio'n wahanol yng ngwyneb y chwyddiant presennol yn y sector – o bosib drwy wneud mwy o gydgynyrchiadau – i greu arbedion yn y dyfodol.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer 2022–23, ac fe nodwyd y cynlluniau ariannol am y pum mlynedd nesaf.**<br><br>Holodd DL a oedd bwriad adolygu ein polisïau, megis polisi treuliau ac ati. Esboniwyd ein bod wedi meincnodi ein polisi treuliau presennol yn erbyn y BBC, y DCMS a Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddai'r polisi'n cael ei adolygu i sicrhau ein bod yn gymharol gyda sefydliadau tebyg eraill.<br><br>**Penderfyniad: ShW i adolygu ein polisi treuliau o'i gymharu gyda rhai sefydliadau cyffelyb.** | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**ShW**<br><br><br><br><br><br><br>**ShW** |
| | [gadawodd ShW y cyfarfod] | |
| 7. | **Canlyniad adolygiad o drefniadau cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau**<br><br>Cyflwynodd GP ei adolygiad o strwythur y Bwrdd a'i bwyllgorau. Roedd yr adroddiad wedi edrych ar drefniadau llywodraethu, beth yw'r ffin rhwng cyfrifoldeb y Bwrdd a'r Weithrediaeth. Nodwyd mai Bwrdd Unedol cysgodol sy'n weithredol ar hyn o bryd nes bydd y ddeddf yn ei lle i ganiatáu ffurfioli'r Bwrdd Unedol.<br><br>Ymysg yr argymhellion roedd ail-sefydlu y Pwyllgor Personél a Thaliadau, a chael Pwyllgor Archwilio a Risg traddodiadol. Yn ogystal, byddai Panel Cwynion yn disodli'r Pwyllgor presennol, fyddai ond yn cwrdd pan fo cwyn yn dod mewn.<br><br>Yn hytrach na chyfarfod misol, mae'r cynllun arfaethedig yn argymell i'r Bwrdd gyfarfod bob chwech wythnos, gyda dau o'r cyfarfodydd yn rhai cwrdd i ffwrdd. Byddai hyn yn caniatáu digon o amser rhwng cyfarfodydd i'r tîm rheoli ddygymod â'r gwaith. Byddai'r Pwyllgorau Cynnwys, Archwilio a Chyfathrebu yn parhau i gwrdd unwaith y chwarter, gyda'r Pwyllgor Personél i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn er mwyn trafod taliadau a materion personél.<br><br>Roedd cais i'r Bwrdd gymeradwyo'r argymhellion mewn egwyddor, ond byddai yna angen edrych ar y cylchoedd gorchwyl a manylder, ynghyd ag adolygu'r Rheolau Sefydlog er mwyn adlewyrchu'r ffordd newydd o weithio.<br><br>Roedd y Cadeirydd yn hapus iawn i barhau gyda'r drefn o gael y Prif Weithredwr fel cadeirydd i'r Bwrdd Masnachol, gan gadw'r cyswllt uniongyrchol rhwng ein hadran fasnachol a'r arian cyhoeddus. Mae sicrhau llinell gyfrifoldeb glir yn cryfhau llywodraethiant y Bwrdd Masnachol.<br><br>Awgrymwyd y dylai'r Bwrdd gyfarfod mewn person, gyda chyfarfodydd pwyllgorau yn digwydd yn rhithiol, oni bai fod cadeiryddion y pwyllgor yn teimlo'r angen am gyfarfod wyneb yn wyneb. Awgrymwyd hefyd ei bod yn syniad da i gyfarfod mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys ein swyddfeydd yn yr Egin, Caernarfon a Chaerdydd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cafwyd trafodaeth am y bwriad o gael paneli ymgynghorol o ran ein gwylwyr, ond awgrymodd CJ ein bod angen sicrhau ein bod yn cyrraedd ein gwylwyr coll. Roedd hefyd yn teimlo fod 'na ormod o edrych yn yng ngwaith y Pwyllgor Cynnwys ôl a dim digon o waith cynllunio strategol ymlaen llaw.<br><br>**Penderfyniad: Byddi angen sicrhau bod rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r Pwyllgorau'n rhoi'r pwyslais ar gynllunio a thrafodaethau strategol.**<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y newidiadau i strwythur a threfniadau cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau, yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad.**<br><br>[ymunodd Meleri Wyn Flint a'r cyfarfod] | <br><br><br><br>**GP**<br><br><br><br>**GP** |
| 8. | **Gwasanaeth Mynediad S4C**<br><br>Cyflwynodd Meleri Wyn Flint adroddiad ar waith Mynediad S4C.<br><br>Nodwyd fod ymrwymiadau S4C yn uwch na'r targedau y mae Ofcom yn eu gosod ar ddarlledwyr o ran gwasanaethau mynediad. Adroddwyd pa raglenni sy'n cael eu hisdeitlo yn y Gymraeg neu'r Saesneg, a nodwyd fod canran uchel o raglenni sy'n cyrraedd o flaen llaw yn cael eu hisdeitlo, ond ei bod yn fwy o her rhoi isdeitlau ar raglenni byw. | |

**Rhodri Williams, Cadeirydd y Bwrdd** **Dyddiad**

**<u>Dyddiad cyfarfod nesaf y Bwrdd</u>:**
**Bwrdd: 20 Ionawr**